Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Llangeitho**
**Ysgol Gynradd Llangeitho**
**Llangeitho**
**Tregaron**
**Ceredigion**
**SY25 6TR**

**Dyddiad yr arolygiad: 15, 16 Ionawr 2013**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/2/2013**

## Ynglŷn â'r cylch

Lleolir Cylch Meithrin Llangeitho mewn ystafell ar safle'r Ysgol Gynradd ym mhentref Llangeitho. Fe'i agorwyd yn 1979. Y mae'r lleoliad wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989 a chaiff ei gynnal yn unol â chanllawiau cydnabyddedig Mudiad Meithrin. Rheolir y lleoliad gan Bwyllgor Rhieni.

Mae'r cylch yn darparu gofal ar gyfer plant o'r gymuned leol a'r ardaloedd o'i chwmpas ar bedwar bore'r wythnos o Ddydd Mawrth i Ddydd Gwener. Cynhelir y sesiynau rhwng 9.00 a 11.30 yn ystod tymhorau ysgol. Derbynnir plant o ddwy flwydd oed i fyny ac maent yn gadael pan fyddant yn dechrau eu haddysg statudol yn Ysgol Gynradd Llangeitho neu mewn ysgolion eraill yn y sir. Cofrestrwyd un plentyn ar ddeg adeg yr arolwg ac ariannwyd chwech ohonynt. Adnabyddir yr ardal fel un nad yw'n freintiedig na chwaith yn ddifreintiedig.

Tu allan i'r ystafell fe geir cyntedd bach lle rhoddir cotiau'r plant. Rhennir nifer o adnoddau dysgu gyda'r ysgol gan gynnwys: yr iard; y neuadd a'r toiledau. Mae dwy sied fawr tu allan lle y cedwir yr offer mawr. Defnyddia'r lleoliad hefyd gae mawr yr ysgol y tu allan, yr ardd lle y tyfant flodau, y tŷ Celtaidd a lloches lle gaiff y plant gyfleoedd i chwarae.

Meithrinfa Gymraeg ei chyfrwng yw hon ond fe'i mynychir hefyd gan blant sydd o gefndir Saesneg. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at ddeuddeg o blant. Mae croeso yn y lleoliad i ddisgyblion ethnig er nad oedd plant o gefndiroedd ethnig yno adeg yr arolwg.

Daw tri o blant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a thri o gartrefi Saesneg eu hiaith. Adeg yr arolwg nid oedd yno blant wedi'i nodi ag anghenion addysg ychwanegol. Cyflogir dau ymarferwr sy'n ymgymryd â rolau'r cyd-arweinyddion a gweithia'r ddwy gyda'r plant. Mae ganddynt gymwysterau a phrofiad priodol yn addysg blynyddoedd cynnar ac y mae'r ddwy wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn a diogelu plant a chymorth cyntaf.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar 11 Gorffennaf 2012 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn ym mis Ionawr 2006.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r perfformiad cyfredol yn dda oherwydd:

- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- teimla'r plant yn hapus a diogel yn y lleoliad;
- y profiadau cyffrous yn yr amgylchedd sy'n ymateb yn dda i ddiddordebau'r plant;
- safon yr addysgu sy'n gyson dda;
- asesu drwy arsylwi a'r defnydd effeithiol a wneir o hyn i gynllunio'r camau nesaf, a'r
- partneriaethau cryf gyda'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- mae diwylliant o adlewyrchu proffesiynol yn bodoli sydd wedi ei seilio ar hunan-arfarniad;
- safon dda'r arweinyddiaeth;
- ymrwymiad y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, a
- gwaith tîm effeithiol.

# Argymhellion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

*Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad*

A1. Barhau i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant

A2. Gwneud yr adroddiad hunan-arfarnu yn fwy cryno a mwy dadansoddol er mwyn adnabod yn glir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

*Bydd y cylch yn cynhyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y caiff yr argymhellion yma eu cyflawni.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn yn cyflawni'n dda o'i fan cychwyn a'i gyfnod datblygiad a gwna pob plentyn gynnydd da ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Datblyga bron pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd yn dod o gartrefi di-gymraeg, eirfa a phatrymau iaith cadarn. Dealla a chyflawna'r mwyafrif yn gywir gyfarwyddiadau ac atebant gwestiynau yn briodol. Wrth siarad, defnyddia'r mwyafrif frawddegau llawn gydag anogaeth yr oedolion. Gwrandawant gyda diddordeb ar stori gan ganolbwyntio'n dda a chydadrodd darnau adnabyddus gyda brwdfrydedd. Datblyga'r mwyafrif eirfa dda a defnyddiant Gymraeg wrth eu gweithgareddau.

Hoffant ganu caneuon yn fawr iawn ac ynganant yn glir. Mwynhânt i gyd bori drwy lyfrau ac ânt i ddewis llyfrau o'u gwirfodd a'u trafod fel darllenwyr. Mae pawb yn mwynhau gwneud marciau y tu fewn ac yn yr ardal tu allan ac arbrofant yn hyderus ag ystod eang o ddeunyddiau. Mae rhai o'r plant yn ysgrifennu'u henwau. Defnyddia pob plentyn iaith fathemategol gywir wrth gymharu hyd, taldra neu faint pethau a thrafodant faint a siâp gwrthrychau yn hyderus wrth chwarae ac archwilio'u hamgylchedd. Defnyddia'r mwyafrif eu bysedd i rifo ac adnabydda pob plentyn rifau hyd at saith. Datblygant fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da wrth ddefnyddio'r gliniadur, rhaglenni cyfrifiadurol a'r chwaraewr cryno ddisgiau. Dangosant sgiliau creadigol da tra'n paentio a chwarae rôl ac y mae eu gwaith celf yn ddeniadol iawn.

Datblygant lefelau da o annibyniaeth, hunan hyder, a hunanlywodraeth. Gall y mwyafrif ganolbwyntio am gyfnodau estynedig tra'n chwarae ac archwilio eu hamgylchedd y tu allan ac maent i gyd yn mwynhau eu dysgu.

**Lles: Da**

Y mae'r plant yn mwynhau eu profiadau yn y cylch yn fawr iawn. Rhydd y berthynas agos a hoffus iawn rhwng yr oedolion a'r plant ymdeimlad braf o ddiogelwch a boddhad iddynt. Dengys hunan hyder a hapusrwydd y plant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a dangosant hwythau, yn eu tro, barch a hoffter tuag at yr oedolion. Ymddygant fel teulu bach a dangosant hoffter a chonsyrn tuag at ei gilydd, yr ymarferwyr ac ymwelwyr.

Dealla pob un bod bwyta'n iach a chadw'n heini'n bwysig i'w hiechyd ac enwant fwydydd iach a phethau na ddylent fwyta. Mwynhânt fwyta byrnwyd gyda'i gilydd bob dydd ac maent yn ymddwyn yn hyfryd wrth y ford. Mae pob plentyn yn mynd i'r tŷ bach ar ei ben ei hunan ac yna'n golchi ei ddwylo.

Mae gan bawb agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at ddysgu gan gymryd rhan weithredol yn eu profiadau ac ymddwyn yn dda. Gwna'r holl blant benderfyniadau a

dewisiadau ynglŷn â'u dysgu ac y maent i gyd yn hyderus iawn yn eu cymuned fach yn y feithrinfa.

Y maent yn gwrtais bob amser a dangosant ystyriaeth tuag at eraill. Gwna pob plentyn ffrindiau yn y feithrinfa ac y maent yn hoff iawn o'i gilydd. Chwiliant am eu ffrindiau i ddod i chwarae gyda nhw a dangosant gonsyrn amdanynt.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae safon y cynllunio'n dda. Cyn cynllunio mae'r ymarferwyr yn gwerthuso darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos. Trafodant gyraeddiadau ac anghenion pob plentyn unigol ac ystyrir hefyd yr asesiadau drwy'r arsylwi a wneir. Defnyddiant yn dda'r holl wybodaeth hon i fwydo'r cylch nesaf o ddarpariaeth. Ymateba'r cynllunio yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant a chynllunnir ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio'n hyblyg a gwelwyd yr ymarferwyr yn ei addasu i gwrdd â diddordebau'r plant. Adeilada'r oedolion ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrlon iddynt.

Rhydd yr ymarferwyr gyfleoedd da i'r plant i ddatblygu'n ddysgwr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol ac i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da. Hyrwyddant ddatblygiad sgiliau creadigol da drwy ddarparu nifer fawr o gyfleoedd i baentio lluniau gwreiddiol iawn o'u harsylwadau a thrwy gyfleoedd da i chwarae rôl. Derbynia'r plant gyfleoedd cyson i archwilio'u hamgylchedd naturiol drwy fynd am daith o gwmpas yr ysgol i edrych ar newidiadau tymhorol. Derbyniant brofiadau cyfoethgar fel bwydo ac arsylwi'r adar yn eu gardd a phlannu a thyfu blodau a llysiau. Dysgant am ddatblygiad cynaliadwy trwy roi ar wahân bwyd gwastraff i fwydo'r anifeiliaid a dosbarthu plastig a phapur ar gyfer ail-gylchu. Drwy ymwneud â'u profiadau diddorol a chydweithio o fewn eu cymuned dysgu clos, caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu perthynas gadarn gydag eraill ac i ddangos parch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill.

Caiff y plant fodel naturiol o'r iaith Gymraeg a chânt eu hannog gan yr ymarferwyr i ymestyn eu hiaith trwy adrodd rhigymau, caneuon a straeon sydd yn cynnwys iaith ddiddorol a geirfa eang a chyfoethog.

Dathlant ddiwylliant Cymreig drwy ystod o ffyrdd gan gynnwys cynnal cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi a thrwy ymweld â llefydd yn y pentref ac ymhellach i ffwrdd sy'n gysylltiedig â'r thema, er enghraifft, Pentref Bach a Llangrannog.

**Addysgu: Da**

Medda'r ymarferwyr ar wybodaeth dda o ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn y maes ac fe rydd hwn sail dda a chyfeiriad i'r ddarpariaeth. Deallant ofynion y

Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Rheolir ymddygiad mewn ffordd sensitif a chadarnhaol ac o ganlyniad fe ddysga'r plant dueddfrydau gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch, sensitifrwydd a charedigrwydd tuag at eraill.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gwestiynau pen agored i ymestyn dysgu'r plant a'u sgiliau meddwl a bodlona hyblygrwydd yr addysgu anghenion unigol y plant yn dda. Caiff y plant gyfleoedd da i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a hyrwydda hyn yn dda eu hannibyniaeth a hunan hyder.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda iawn. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol a thrafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Bwydir y wybodaeth a gasglwyd i mewn i'r cylch nesaf o gynllunio; gwelir effaith y wybodaeth hon yn y ddarpariaeth dda. Cedwir cofnodion parhaus o gynnydd y plant a chynhwysa'r rhain wybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad pob plentyn. Mesurant gynnydd y plant yn gyson ymhob maes dysgu a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Derbynia'r rhieni adroddiad cynhwysfawr am eu plant pan fyddant yn gadael i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch cartrefol yn y lleoliad lle teimla'r plant yn gyfforddus a hapus iawn. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi a dangosir parch tuag at eu syniadau a'u diddordebau.

Datblygant yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini. Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu'n dda, er enghraifft, drwy fynd i'r eglwys i ddathlu'r Nadolig. Dywed y plant weddi cyn byrbryd a chyn mynd tuag adref. Dysgant am gredoau eraill drwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Datblygant synnwyr arbennig o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas drwy'r cyfleoedd y cânt i syllu ar eu hamgylchedd. Gwelwyd plant yn syllu ar y defaid yn y cae drws nesaf, yr adar yn bwyta'r teisennau adar a wnaeth y plant iddynt ac yn archwilio olion y gwahaddod yn y cae tu allan.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin yn dda iawn y gwerthoedd a'r moesau hynny y credant eu bod yn angenrheidiol i ddatblygiad cyflawn y plentyn cyfrifol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd ac maent yn gwybod yn dda beth yw'r gwahaniaeth rhwng da a drwg yng nghyd-destun eu bywydau ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu'n dda, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth dda iawn o fyw a rhannu yn eu cymuned fechan. Caiff y plant gyfleoedd cyson i wneud penderfyniadau a mwynhânt bob profiad a gynigir iddynt.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng y lleoliad, yr ysgol ac asiantaethau allanol yn dda. Sicrha'r berthynas glos rhwng yr ysgol a'r lleoliad drosglwyddiad arbennig o lwyddiannus i'r plant wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen. Mae'r berthynas rhwng y rhieni a'r lleoliad yn dda iawn. Dywedodd detholiad o rieni eu bod yn fodlon iawn ar bob agwedd o ddarpariaeth y lleoliad.

Mae gan y lleoliad bolisi Diogelwch Plant priodol ac mae'r staff yn ymwybodol ohono. Mae'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer diogeli'n weithredol ac yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Nid oedd yna blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol adeg yr arolwg.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chynhwysol yn bodoli yn y lleoliad. Dengys yr oedolion hoffter a charedigrwydd mawr tuag at bob un a chaiff pob plentyn ei werthfawrogi. Adnabyddai'r ymarferwyr y plant a'u hanghenion a'u diddordebau'n dda ac ymatebant i'r rhain gan ddefnyddio eu gwybodaeth dda o gefndiroedd y plant. Caiff pob plentyn fynediad cyfartal i bob agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad i'r hoffter a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu ac ymddygiad da.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cadarnhaol iawn i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol iawn. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd. Mae yna hefyd bolisi Diogelwch Plant priodol ac mae'r staff yn ymwybodol ohono. Mae'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer diogeli'n weithredol ac yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn dda a medda'r staff ar gymwysterau da a phrofiad eang. Maent yn mynd i'r afael â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn dda. Nid oedd yna blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol adeg yr arolwg.

Mae'r ystafell yn ddigonol i'r plant dderbyn profiadau dysgu diddorol ymhob maes dysgu. Mae'r staff yn defnyddio'r ardal tu allan yn gyson er mwyn datblygu gallu'r plant i ganolbwyntio a dyfalbarhau. Mae defnydd y lleoliad o'r amgylchedd tu allan, yr ysgol a'r gymuned yn cyfoethogi eu profiadau dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r cyd- arweinwyr yn rhoi cyfarwyddyd clir a phendant i holl fywyd y lleoliad a'r broses o welliant. Cydweithiant yn dda iawn a rhannant egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi ei seilio ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael eu gweithredu trwy'r profiadau dysgu gweithredol a diddorol a gaiff y plant. Fe'u gwelir hefyd yn y ddarpariaeth sy'n rhoi iddynt gyfleoedd da i fagu hunan hyder ac annibyniaeth ac i wneud cynnydd da.

Y plentyn a'i anghenion a diddordebau unigryw sydd wrth ganol pob peth a llwydda'r arweinyddion greu ethos cadarnhaol a hapus.

Cyflawna'r ymarferwyr eu cyfrifoldebau'n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant. Cyfranna'r arweinyddion tuag at gynllunio strategol y lleoliad.

Rhannant y gwerthoedd y maent am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r plant yn ogystal â thargedau sydd yn sicrhau darpariaeth dda a safonau uchel o gyflawniad. Caiff cynnydd tuag at eu cyflawni ei fonitro'n gyson.

Mae'r cynllun gwella lleoliad sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau hunan arfarnu'r lleoliad yn rhoi cyfeiriad clir i fywyd a gwaith y lleoliad.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol iawn o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad. Deallant a chyflawnant eu rolau'n dda iawn. Gwyddant yn dda am berfformiad y lleoliad a cheir trafodaethau sylweddol yn y cyfarfodydd rheolaidd. Cyn bennaeth yr ysgol yw'r person cofrestredig ac y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau'n gyflawn ac yn gydwybodol. Defnyddia'r pwyllgor wybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol a chyflawnant eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r awdurdod lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna'r lleoliad ddefnydd effeithiol o'u hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn drylwyr ac arweinia at strategaethau cadarn ar gyfer gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Ymgynghora'r arweinwyr â rhieni a gofalwyr i fwydo'r hunanarfarnu. Defnyddiant y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth holiaduron i rieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu.

Defnyddiant yn effeithiol gefnogaeth athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin a gweithredant yn llwyddiannus eu hargymhellion.

Yn sgîl y broses o hunan arfarnu cynhyrchir cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad ac sydd yn canolbwyntio ar godi safonau trwy wella'r ddarpariaeth a gosod targedau clir. Mae'r ddau gyd-arweinydd yn cyfrannu at y broses hon.

Maent yn derbyn cyfweliad gwerthuso blynyddol gan gadeirydd y pwyllgor rhieni er mwyn adnabod ei hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus..Y mae hi'n ymweld â'r lleoliad yn gyson ac elwa'r lleoliad yn fawr ar ei chefnogaeth. Mynycha'r cyd-arweinyddion gyrsiau hyfforddiant mewn-swydd yn gyson a gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn a ddysgant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag eraill i gyflwyno profiadau dysgu. Gweithia'r arweinyddion yn agos ac effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol i wella ar y ddarpariaeth a safonau.

Gweithiant yn agos iawn gyda'r rhanddeiliaid, yn enwedig y rhieni, ac y maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau ganddynt.

Mae’r bartneriaeth gyda’r ysgol yn nodwedd dda iawn. Gweithiant yn agos gyda’r athrawes blynyddoedd cynnar a’r pennaeth a chaiff y bartneriaeth hon effaith gadarnhaol ar safonau. Rhennir arbenigedd ac adnoddau’n ddyddiol rhwng yr ysgol a'r lleoliad ac mae’r lleoliad yn elwa’n fawr o hyn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Lleolir ymarferwyr er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’u harbenigedd a sicrhau darpariaeth dda. Defnyddiant adnoddau y tu fewn a thu allan yn effeithiol iawn er mwyn darparu profiadau cyffrous i’r plant ac ehangu eu gorwelion. Mesurant effaith yr adnoddau ar y dysgu a’r addysgu a chynlluniant ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Defnyddiant yr awyr agored yn dda iawn i ddatblygu medrau’r plant ymhob maes dysgu.

Gwna’r arweinwyr y defnydd gorau bosib o adnoddau’r lleoliad ac o’r cyllid i gynnig y ddarpariaeth orau. Mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Roedd pob plentyn yn gyfforddus wrth siarad gydag ymwelydd a dywedant eu bônt yn hapus iawn yn y cylch. Soniant am eu ffrindiau a dywedant eu bod yn gwybod beth i'w wneud petaent yn anhapus neu yn gofidio am rywbeth.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Branwen Llewelyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| | |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |